

MYFYRDOD DWYNWEN

(Yn cael ei gyflwyno gan ferch wedi'i dilladu mewn gwisg hir laes. Gellir addasu'r cyflwyniad yn ôl tafodiaith yr ardal.)

Dwynwen yw'r enw a dw i'n ferch i Brychan Brenin Brycheiniog. Un tro, cynhaliwyd gwledd fawr ym mhalas fy nhad. Roedd llawer o bobl wedi dod yno ac roedden nhw wedi'u gwisgo mewn dillad hardd iawn. Roedd digon o ddewis o ddynion hefyd. Roeddwn i'n cael llawer o hwyl; cyfle i ddawnsio a bwyta digonedd tan oriau mân y bore.

Sylwais ar un gŵr arbennig a oedd yn syllu cryn dipyn arna i. Maelon oedd ei enw ac roedd e'n dywysog yn ôl yr hanes. Roedd e'n ddyn hardd iawn ac roedd e eisiau fy mhriodi i, ond roedd fy nhad eisoes wedi trefnu i mi briodi rhywun arall. Doedd Maelon ddim yn fodlon iawn o glywed hyn ac fe gafodd ei gynhyrfu gymaint nes i mi orfod dianc i ddiogelwch y goedwig. Yno gweddïais ar Dduw i'm helpu i anghofio am Maelon. Syrthiais i gysgu a thra 'mod i yno, ymwelodd angel gan roi diod arbennig i mi i'w yfed.

O ganlyniad, collais fy nghariad at Maelon ac fe gafodd e ei droi'n dalp o rew. Ar ôl hynny, cefais dri dymuniad. Y dymuniad cyntaf oedd gofyn am i Maelon gael ei ddadmer. Yr ail dymuniad oedd erfyn ar Dduw i wireddu breuddwydion unrhyw un sy'n glaf o gariad. Y trydydd dymuniad oedd sicrhau na fyddwn i byth yn priodi.

Daeth y tri dymuniad yn wir, ac er mwyn dangos fy niolchgarwch am hyn, cysegrais fy mywyd yn gyfan gwbl i Dduw, gan fyw fel lleian ar Ynys Llanddwyn. Erbyn hyn, dw i wedi sefydlu eglwys yma hefyd.

Gobeithio ryw ddydd y daw yr eglwys a'r ffynnon gerllaw yn gyrchfan pererindod ac y bydd cariadon Cymru yn tyrru yma. Pwy a wŷr, efallai y byddan nhw hyd yn oed yn cynnal dydd arbennig ar gyfer cariadon Cymru ryw ddiwrnod.